**Disgrifiad Swydd:** Cydlynydd Cymorth Teuluol (Gradd 3)

**Adrodd i:** Arweinydd Tim Cymorth Teuluol

**Prif Rhanddeilwyr:** Pobl ag anafiadau Llinyn Cefn a'u teuluoedd, gweithwyr professiynnol a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl wedi eu heffeithio gan anafiadau llinyn cefn, staff BackUp, gwirfoddolwyr a threfnwyr, noddwyr a chyllidwyr gwasanaethau mawr.

**Diddordeb:**
I alluogi ystod eang o aelodau teuluoedd o bob oedran sydd ag anwylyn wedi eu heffeithio gan anaf llinyn cefn i wella eu lles, eu gwybodaeth a'u hyder. Bydd y Cydlynydd yn adeiladu rhwydwaith cymorth i helpu i drawsnewid eu bywydau trwy wasanaethau BackUp a ffynonellau cymorth arall.

**Gwerthoedd:**
Mae holl swyddi BackUp yn adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

1.**Rydym yn croesawi her:** Mae her yn ganolog i'n dysgu a twf, mae'n ein helpu i wella ein gwybodaeth a'n sgiliau. Drwy ganfod ffyrdd i oresgyn her a symud ymlaen, rydym yn ennill ymdeimlad o gyflawniad, tra'n cefnogi ein gallu i wireddi ein llawn botensial.

2. **Rydym yn cael hwyl:** Credwn fod cael hwyl yn ein galluogi i gyfathrebu yn llwyddiannus, gan agor drysau i ddatblygu, i gyflawni ac i gael y gorau allan o fywyd gan ddangod bod na ddyfodol cadarnhaol ar ol anaf llinyn cefn.

3. **Rydym yn adeilau cymunedau cynhwysol:** Rydym yn cyflawni mwy i gefnogi pobol ag anafiadau llinyn cefn pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Rydym yn gydweithredol ac yn gynhwysol yn ein dulliau gweithredu. Rydym yn croesawi amrywiaeth, gan weithio gyda a chefnogi unigolion, grwpiau, a'r gymuned ehangach a effeithiwyd gan anaf llinyn cefn.

4. **Rydym yn annog ein gilydd:** Rydym yn cael ein hysgogi a'n hysbrydoli gan anghenion pobl gydag anaf llinyn cefn a'u teuluoedd. Rydym yn angerddol, yn ymdrechu i fod y gorau gallwn ni. Rydym yn gosod safonau uchel, yna'n gweithio'n galed i'w cyrraedd. Rydym yn adweithiol, yn gwthio ffiniau ac yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd ac yn dysgu'n gyflym. Rydym yn cydnabod nad yw methiant yn cyfateb a cholled, ond yn hytrach yn gyfle i dyfu. Rydym yn gwrando ar yr hyn y mae pobl yr effeithir arnynt gan anaf llinyn cefn ei angen ac eisiau, ac rydym yn ceisio ymateb yn arloesol yn seiliedig ar eu hadborth.

**Prif Ddyletswyddau**
Ymgysylltu yn rhagweithiol a theuluoedd yr effeithir arnynt gan anaf llinyn cefn a'u cefnogi. Creu 'Cynllun Deuluol' sy'n ymateb i ofidiau ac anghenion y teulu, tra'n datblygu eu gwybodaeth a'u hyder ar hyd llwybr sy'n mynd law yn llaw gydag adsefydliad yr aelod yr anafwyd.

**Dyletswyddau Penodol**
Rheoli llwyth gwaith y rhai sy'n dymuno datblgu Cynllun Deulu penodol.

- Gweithio fel rhan o dim sy’n annog, cydnabod ac yn ymateb i gyfeiriadau am gefnogaeth.
- Deall fod angenion y teuluoedd yn newid a sicrhau fod y wasanaeth yn ateb yr anghenion hynny.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd ac asiantaethau profesiynnol i ddatblygu Cynllun Deuluol dros cyfres o 3 cyfarfod – creu, gwirio ac adolygu a gwerthuso.
- Sicrhau for cyfeiriadau at wasanaethau arall yn cael eu delio gyda a’u cyflawni.
- Cynnal a chadw cofnodion ar y bas data.

Goruchwylio’r broses o fonitro, mesur ac asesu canlyniadau drwy:

- Gyfrannu at, a sicrhau fod y GPC yn cael eu cyflawni.
- Marchnata a hyrwyddo’r wasanaeth ac, yn unol a’r tim cyfathrebu, datblygu ein cyfathrebiadau ar gyfer teuluoedd, er enghraifft cylchlythyron, tudalennau gwe a chyfryngau cymdeithasol.
- Datblygu dulliau gweithio newydd mewn ffyrdd greadigol i gyrraedd mwy o aelodau teulu/gwella’r cymorth rydym yn ei gynnig.
- Sicrhau fod y mesurau gwerthuso cyn, ac ar ol yn cael eu cofnodi ar gyfer pob achos.
- Diweddaru BackUp gydag unrhyw faterion sy’n effeithio ar y bobl rydych wedi cefnogi ac am y datblygiadau diweddaraf yn y Canolfannau Anaf Llinyn Cefn.

Darparu gwasanaeth:

- Gweithio mewn partneriaeth agos a chydweithredol gyda’r timau Allgymorth ac Ymgysylltu a’r Teulu, gan ymgysylltu gyda’r nifer mwyaf posibl o aelodau teulu sydd ag anwylyn ag anaf llinyn cefn.
- Os bydd angen cynllun teulu, rhaid dilyn y prosesau mentora presenol a’r protocolau cywir.
- Cyfrannu a chefnogi sesiynnau ar lein BackUp yn bythefnosol
- Ymateb i gwestiynau ac i geisiadau am gymorth gan aelodau o’r teuluoedd sy’n gysylltiedig gyda BackUp.
- Cyfeirio at wasnaethau BackUp lle bo’r angen ac i fannau eraill er mwyn atgyfeirio yn llwyddiannus.
- Codi fwy o ymwybyddiaeth am anafiadau llinyn cefn.
- Arwain, cynnal a datblygu perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol gydag ystod eang o weithwyr iechyd profesiynnol a chynrychiolwyr elusennau eraill drwy gyflwyniadau, cysylltiadau ffon a chyfarfodydd i sicrhau fod y defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y gefnogaeth orau posib.

Dyletswyddau ac atebolrwydd arall:

- Gweithio’n gyson mewn ffordd sy’n enghreifftiol o ethos ac yn cydfynd a gwerthoedd BackUp
- Gweithio’n gydweithredol gyda thimau a sefydliadau eraill i sicrhau fod anghenion yr unigolion yn cael eu bodloni.
- Dyletswyddau eraill a fydd yn ofynnol gan Arweinydd Tim Cymorth Teulu.

**Sgiliau gofynnol**

Cymwysterau a phrofiad hanfodol:

- Aelod o'r teulu, neu chi eich hunan gydag anaf i linyn cefn.
- Cyfathrebwr talentog a dylanwadol gyda sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Sgiliau rhyngbersonol wyneb yn wyneb rhagorol mewn grwpiau ac ar y ffon. Yn gallu uniaethu yn hyderus gyda phob math o bobl a sefydlu perthnasoedd.
- Tosturiol ac empathetig, yn gallu gwrando, ysbrydoli ac ysgogi gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- Chwaraewr tim, yn gydweithredol, cefnogol, hyblyg ac yn gyfathrebwr cryf o fewn BackUp.
- Gallu rheoli llwyth gwaith eich hun, yn drefnus ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau.
- Dibynadwy ac yn gallu rheoli amser.
- Rheoli terfynnau amser, blaenoriaethu a gweithio o dan bwysau.
- Ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Meddu ar sgiliau TGCh rhagorol gan gynnwys Microsoft Office a chronfeydd data, ac yn ddefnyddiwr cymwys o'r cyfryngau cymdeithasol.
- Deall y problemau y mae pobl yn eu hwynebu o ganlyniad i anaf llinyn cefn ac o'r gwasanaethau ar eu cyfer yn y DU.
- Yn addas i weithio yn ddiogel ac yn briodol gyda phlant a phobl sy'n agored i niwed.
- Parchu cyfrinachedd.
- Profiad o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed.
- Ymagwedd rhagweithiol tuag at eu hanghenion cymorth, iechyd a llesiant eu hunain.
- Parch at eraill – gallu gweithio mewn ffordd sy'n parchu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi cydraddoldeb.
- Yn barod, ac yn gallu teithio a gweithio oriau hyblyg gan gynnwys nosweithiau, penwythnosau a dros nos.

**Bydd ymgeiswyr a all ddangos unrhyw un o'r canlynol yn fuddiol:**

- Tair neu fwy o flynyddoedd ers i aelod o'r teulu dderbyn niwed llinyn cefn.
- Profiad o weithio yn y sector wirfoddol ac ysbrydoli a hybu gwirfoddolwyr.
- Profiad o arwain/cynorthwyo gwwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn darparu gwasanaeth elusennol i ddatrys problemau cymdeithasol cymhleth.
- Hyfforddiant mewn cyflwyno/hyfforddi grwpiau.
- Profiad o weithio yn gydweithredol gyda sefydliadau eraill.
- Profiad o weithio gyda gweithwyr iechyd a gofal.
- Profiad o reoli risg.
- Porfiad o weithio gyda phobl mewn trawma.
- Cymhwyster gwyddoniaethau cymdeithasol/seicoleg/cwnsela/hyfforddiant neu brofiad tebyg.
- Gyrrwr a defnydd o gerbyd eich hun.